



Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol Cymru

3 Chwefror 2023

Annwyl Gydweithwyr

Hoffwn rannu gyda chi eto nifer o astudiaethau achos gan sefydliadau'r GIG am yr hyn y maent yn falch ohono. Caiff y rhain eu casglu fel rhan o'n Bwrdd Arweinyddiaeth GIG Cymru misol. Gweler isod yr uchafbwyntiau gan bob sefydliad.

### **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Mae'r ddwy uned newydd **Gofal Brys ar yr Un Diwrnod (SDEC)** yn Ysbyty Athrofaol y Faenor ac Ysbyty Ystrad Fawr yn nodi'r gaeaf cyntaf iddynt fod ar agor.

Agorodd uned SDEC yn Ysbyty Athrofaol y Faenor am y tro cyntaf ym mis Awst 2022 mewn ymateb i'r pwysau cynyddol ar ofal brys yng Ngwent ac i wella llif cleifion. Fe'i dilynwyd gan Ysbyty Ystrad Fawr, a ddechreuodd ei uned beilot SDEC ym mis Hydref 2022.

Mae'r unedau hyn, sy'n derbyn cleifion naill ai drwy atgyfeiriad Meddyg Teulu neu Adran Achosion Brys yn unig, yn darparu'r gofal cywir, yn y lle cywir, ar yr amser cywir i gleifion drwy gynnig asesiad a thriniaeth ar yr un diwrnod mewn ysbyty.

Mae gan bob uned ei detholiad ymrwymedig ei hun o Feddygon Ymgynghorol, Ymarferwyr Nyrsio, Nyrsys Cymwys, Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd a staff gweinyddol, gyda phob un yn cydweithio er mwyn darparu gofal effeithlon i gleifion.

Mae SDEC yn hyrwyddo llif cleifion, yn cynnig profiad cadarnhaol i gleifion ac yn rhoi gofal o safon uchel i gleifion.

Ers agor y ddwy uned, mae cannoedd o gleifion a fyddai fel arfer yn mynd i'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor a'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Ystrad Fawr wedi cael gofal ar yr un diwrnod.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Yn ddiweddar, mae tri ysbyty aciwt Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sef Ysbyty Maelor Wrecsam, Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Gwynedd wedi cael eu hachredu fel **ysbytai sy'n 'Ymwybodol o Gyn-filwyr'**. Golyga hyn eu bod yn codi ymwybyddiaeth o gyn-filwyr, yn adnabod cyn-filwyr a gyfeirir ar gyfer triniaeth, ac yn ymdrechu i wella prosesau recriwtio a chadw cyn-filwyr ar draws gweithlu'r Bwrdd Iechyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi lansio Rhaglen Gydweithredol Gofal Iechyd Cyn-filwyr Gogledd Cymru yn llwyddiannus, i sicrhau nad yw aelodau Cymuned y Lluoedd Arfog ar draws y Gogledd dan anfantais o ran y gofal y maent yn ei gael, a lle y bo'n bosibl, eu bod yn cael gofal personol a gwell canlyniadau i gleifion.

Cyhoeddodd tîm Trawsnewid a Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), gyda chymorth tîm Ymchwil a Datblygu'r Bwrdd Iechyd, alwad genedlaethol i bartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol rannu syniadau a fyddai'n helpu i wella'r gwasanaethau a gynigir i bobl ifanc.

Un o'r prosiectau a gyflwynwyd oedd y **Prosiect Bechgyn Coll** gan Dîm Cwnsela Pobl Ifanc Cyngor Sir Ddinbych.

Darparodd y prosiect peilot fwy o wasanaethau cwnsela mewn ysgolion i fechgyn a dynion ifanc rhwng 11 a 18 oed yn Sir Ddinbych, a helpodd i leihau pwysau ac amseroedd aros am wasanaethau CAMHS.

Mae canlyniadau cynnar y prosiect hwn wedi dangos bod y bechgyn ifanc a gymerodd ran yn y prosiect bellach yn gwybod mwy am sut i gael cymorth iechyd meddwl a phryd i geisio cymorth.

Mae'r prosiect bellach wedi cael cydnabyddiaeth genedlaethol ar ôl ennill y wobr 'Arloesi drwy Gydweithio mewn Gofal Cymdeithasol' yng Ngwobrau MediWales eleni.

## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

**Rhaglen sy'n ceisio darparu gofal mwy amserol a diogel i gleifion yn yr amgylchedd gorau ar draws ein system iechyd yw 'Ailosod y Gaeaf'**. Mae'n rhoi cyfle i adolygu'r system gyfan, canolbwyntio ar osgoi derbyniadau diangen, a darparu gofal amserol i'n cleifion sy'n cael triniaeth yn yr ysbyty a'r gymuned.

Mae'r ailosod yn rhan o hwb sefydliadol chwarterol, i ganolbwyntio ymdrechion a'n helpu i reoli a gofalu am gleifion yn fwy effeithiol wrth i'r galw gynyddu. Drwy gymryd yn y rhaglen 'Ailosod y Gaeaf' hon, gallwn sicrhau bod cleifion yn y lleoliad mwyaf priodol gyda'r timau clinigol cywir yn gofalu amdanynt.

Mae CanSense ac IQ Endoscopes wedi cael arian i ddatblygu eu cysyniadau yng nghan cychwynnol yr **Her Endosgopi**, a gynhelir gan y tîm arloesi, Siapio Newid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac a gefnogir gan Gronfa Her Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Mae'r Her Endosgopi yn chwilio am ddulliau arloesol o gyflymu'r broses o ddarparu triniaethau endosgopi yng Nghymru, gwella mynediad a lleihau amseroedd aros cleifion. Cafodd dau ymgeisydd gefnogaeth i ddatblygu eu prosiectau ymhellach a chynnal astudiaethau dichonoldeb. Mae'r cwmni o Abertawe, CanSense, yn datblygu prawf sy'n seiliedig ar waed er mwyn helpu i flaenoriaethu cleifion ar y rhestr aros endosgopi a lleihau'r amser ar gyfer cael diagnosis. Mae IQ Endoscopes, sydd wedi'i leoli yng Nghas-gwent, yn

datblygu endosgopïau hyblyg untro cynaliadwy sy'n dileu'r angen am brosesau dad-halogi hirfaith a drud. Mae disgwyl i gam hwn yr Her ddod i ben ar ôl tri mis.

### **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf**

Mae tîm yr Uned Ddydd yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn defnyddio **dull newydd o ymdrin â llawdriniaeth orthopedig** sy'n golygu y gallai cleifion barhau i wella yng nghysur eu cartrefi eu hunain yn ddiweddarach yr un diwrnod.

Gallai cleifion sy'n cael mathau penodol o lawdriniaeth orthopedig fod yn ôl yn eu cartrefi eu hunain yn fuan ar ôl eu llawdriniaeth fel y gallant wella mewn amgylchedd sy'n gyfarwydd iddynt gyda chefnogaeth aelodau o'r teulu. Mae hefyd yn golygu bod mwy o welyau ar gael yn yr ysbyty gan fod eu harhosiad yn yr ysbyty yn cael ei leihau o bedwar diwrnod i ddim un.

Yr ysbyty oedd y cyntaf yng Nghymru i roi'r dull hwn ar waith yn 2018 ac, ers hynny, mae llawer o lawdriniaethau llwyddiannus wedi cael eu cynnal heb i'r un claf orfod cael ei aildderbyn i'r ysbyty. Gofynnir i gleifion a fyddent yn hapus i ddychwelyd adref yr un diwrnod â'u llawdriniaeth. Yna, maent yn cael eu dewis yn dibynnu ar eu hiechyd cyffredinol, eu symudedd a'u cefnogaeth deuluol.

Gan ddefnyddio'r dull arloesol hwn, fe wnaeth y tîm drin eu claf hynaf yn ddiweddar. Cafodd y claf sy'n 85 oed llawdriniaeth ar ei ben-glin. Cyrhaeddodd i gael ei llawdriniaeth am 7.30am a gwnaeth aelod o'r teulu fynd ag ef adref am 5.30pm. Mae'r claf wedi gwella'n llwyr, ac yn gallu parhau i wneud y pethau mae'n eu caru fel garddio, beicio a mynd am dro.

Enillodd Gwasanaethau Mamolaeth Cwm Taf Morgannwg yr wythnos hon wobwr 'Cyfadran y Flwyddyn' yn seremoni wobrwyo gyntaf erioed PROMPT Cymru. Mae **PROMPT (Hyfforddiant Aml-broffesiynol Ymarferol mewn Obstetreg)** yn becyn hyfforddi aml-broffesiynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer argyfyngau obstetreg ac mae'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd gan dimau yng Nghwm Taf Morgannwg. Mae'n gysylltiedig â gwelliannau uniongyrchol mewn canlyniadau i famau a babanod drwy wella gwybodaeth, sgiliau clinigol a ffactorau dynol.

### **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi cael ei gydnabod am gefnogi a hyrwyddo iechyd a lles ei staff drwy'r [rhaglen Cymru Iach ar Waith](#).

Mewn ymgais i helpu i leihau'r bwlch digidol ar draws ein cymunedau, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi cyflawni **achrediad Siarter Cynhwysiant Digidol Cymru**, y bwrdd iechyd cyntaf yng Nghymru i wneud hynny.

### **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Gall pobl ifanc ym Mhowys nawr gael cyngor iechyd cyfrinachol am ddim drwy neges destun. Mae'r gwasanaeth arloesol hwn yn cael ei ddarparu gan Nyrsys Ysgol o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ac mae'n helpu pobl ifanc i reoli eu hiechyd eu hunain.

Mae **Sgwrslechyd** yn wasanaeth sy'n galluogi pobl ifanc i anfon neges destun at linell gymorth a chael gwybodaeth a chefnogaeth gyfrinachol gan dîm o nyrsys ysgol ar ystod eang o bynciau. Mae'r pynciau yn cynnwys y canlynol, ymysg eraill: iechyd meddwl, bwllo, dulliau atal cenhedlu, alcohol, hunan-niweidio, rhyw, cyffuriau, ysmegu a bwyta'n iach.

Mae pobl ifanc mewn ardaloedd eraill sy'n defnyddio Sgwrslechydd wedi dweud eu bod yn teimlo'n llai annifyr ac nad ydynt yn cael eu barnu drwy ddefnyddio'r gwasanaeth.

<https://biap.qig.cymru/sgwrslechydd>

Bydd Ysbyty Coffa Rhyfel Llanidloes yn cael **gardd synhwyrdd** newydd, diolch i nawdd gan ei Gynghrair Cyfeillion a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Wedi'i lleoli ger Ystafell Gofal Lliniarol yr ysbyty – sy'n cael ei hadnabod fel Ystafell yr Ardd – bydd yr ardd newydd yn cael ei defnyddio gan yr holl gleifion, staff ac ymwelwyr â'r ysbyty.

Dyluniwyd yr ardd mewn ffordd a fydd yn tynnu sylw at bersawr, lliw, teimlad, siâp a symudiad y planhigion a bydd yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn yn ogystal â cherddwyr. Mae'r prosiect wedi'i ddylunio mewn partneriaeth â'r Gynghrair Cyfeillion yn ogystal â staff yr ysbyty ei hun.

Bydd y gwaith ar yr ardd yn dechrau eleni a'r targed ar gyfer cwblhau yw'r hydref.

### **Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adroddiad [Yr argyfwng costau byw: drwy lens iechyd cyhoeddus](#). Mae'r adroddiad yn crynhoi'r ffyrdd y gall **yr argyfwng costau byw** effeithio ar iechyd a lles. Mae'n nodi camau gweithredu i wneuthurwyr polisi a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ddiogelu a hyrwyddo iechyd a lles pobl yng Nghymru yn eu hymateb i'r argyfwng costau byw, gan amlinellu sut y gallai dull iechyd cyhoeddus o ymdrin â'r argyfwng edrych yn y tymor byr a'r tymor hwy.

Cynhaliodd Hyb Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) Cymru ei ddigwyddiad partneriaeth blynyddol ym mis Tachwedd i arddangos llwyddiannau allweddol a nodi'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol o ran **enedl sy'n cael ei llywio gan drawma** yng Nghymru. Agorwyd y digwyddiad gan Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, a ganmolodd y gwaith hyd yma, a sut mae'n cefnogi'r broses o gyflawni ei gweledigaeth ar gyfer gwaith ACE yng Nghymru.

### **Iechyd Gofal Digidol Cymru**

Mae **crynodeb digidol o ofal cleifion arenol** bellach ar gael ym Mhorth Clinigol Cymru, gan sicrhau bod gwybodaeth hanfodol ar gael lle a phryd bynnag y mae ei hangen.

Mae'n cynnig golwg sy'n cael ei ddiweddar'u'n aml ar ofal arenol unigolyn i weithwyr iechyd proffesiynol sy'n gofalu am bobl ar ddialysis, neu sydd wedi cael trawsblaniad i achub bywyd, gan wella profiad y claf.

Mae'r tîm arenol hefyd wedi cyflwyno'r gallu i unedau dialysis gofnodi gwybodaeth am roi meddyginiaethau. Mae hyn yn galluogi cydweithwyr i weld rhestr o feddyginiaethau a roddwyd yn ddiweddar, pan fo'r cyfleusterau hynny'n bodoli. Y nod yw cefnogi cydweithwyr Gofal Sylfaenol ac Adranau Achosion Brys drwy roi gwybodaeth iddynt am ofal arenol claf, a fyddai fel arall y tu hwnt i'w cyrraedd yn uniongyrchol.

Mae'r crynodeb digidol o ofal arenol wedi cael ei ddatblygu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru, fel rhan o brosiect Cronfa Trawsnewid Llywodraeth Cymru ar ran Rhwydwaith Clinigol Arenol Cymru.

Cofnod electronig yw'r **nodyn ymgynghori digidol ar ddiabetes** a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer cleifion diabetes ac mae wedi cael ei ddisgrifio fel 'trawsnewidiad go iawn' gan weithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio gyda chleifion diabetes.

Ceir mynediad i'r nodyn drwy Borth Clinigol Cymru ac fe'i defnyddir i gofnodi, gweld a rhannu gwybodaeth cleifion diabetes, gan arbed amser i ddietegwyr nad oes rhaid iddynt ysgrifennu'n ôl bellach at nyrsys neu ymgynghorwyr sy'n atgyfeirio cleifion.

Mae'r nodyn ar gael i weithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â gofal diabetes gan gynnwys dieteg, podiatreg a'r maes cyn-geni mewn ysbytai yn ardal byrddau iechyd Bae Abertawe, Cwm Taf Morgannwg a Hywel Dda, a bydd yn cael ei lansio yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gynnar yn 2023.

### **Addysg a Gwella Iechyd Cymru**

Mae menter recriwtio newydd sy'n ceisio **annog darpar ddeintyddion sy'n hyfforddi** i fanteisio ar gyfleoedd ar draws y Gymru wledig wedi cael ei lansio gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Mae'r rhan fwyaf o raddedigion deintyddol newydd yn dewis cwblhau eu blwyddyn Hyfforddiant Deintyddol Sylfaen mewn practis deintyddol cyffredinol. Fodd bynnag, mae gwell gan lawer o raddedigion deintyddol gwblhau eu blwyddyn Hyfforddiant Deintyddol Sylfaen mewn ardaloedd mwy trefol, gan adael rhai practisau mewn rhannau gwledig o Gymru heb adnoddau digonol a swyddi heb eu llenwi.

Fel ateb, mae AaGIC wedi lansio [Hyfforddiant Deintyddol Sylfaen Cynnig Recriwtio Gwell Cymru \(DFT WERO\)](#), menter newydd i annog hyfforddeion i gwblhau eu hyfforddiant mewn practis gwledig a chynyddu gwasanaethau deintyddol i bobl yr ardal. Mae'r fenter yn cynnig pecyn cymorth gwell i hyfforddeion sy'n cyflawni eu blwyddyn Hyfforddiant Deintyddol Sylfaen mewn practisau deintyddol gwledig penodol yng Ngorllewin, Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Mae AaGIC yn cyflwyno **Fframwaith Prentisiaeth Fodern** mewn Gwasanaethau Fferyllol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a hynny gyda chymorth ALS Training. Ar hyn o bryd, mae 85 o dechnegwyr fferyllol cyn-gofrestru sy'n gweithio mewn sectorau ymarfer fferyllol gwahanol ledled Cymru yn cwblhau'r brentisiaeth. Dyma lwybr hanfodol ar gyfer cynyddu'r gweithlu Technegwyr Fferyllol yng Nghymru.

Cyhoeddwyd mai Kiera Dwyer, Technegydd Cyn-gofrestru dan hyfforddiant, un o garfan o dechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant 2020 AaGIC yw Prentis y Flwyddyn yng Ngwobrau Prentisiaethau Cymru.

Mae'r technegydd fferyllol Kiera wedi dangos penderfyniad, ymroddiad ac ymrwymiad i gyflawni cyfres o gymwysterau i gefnogi'r fferyllfa gymunedol lle mae'n gweithio yn Abercynon. Mae Kiera sydd â Syndrom Asperger a Syndrom Irlen, a elwir hefyd yn straen gweledol, wedi cymryd cyfrifoldeb ychwanegol i ganiatáu mwy o amser i fferyllwyr yn Fferyllfa Sheppards, sy'n rhan o grŵp Avicenna, ymdrin â chleifion rheng flaen. Mae hyn wedi arwain at y fferyllfa yn cael sgôr o hyd at 100% gan gleifion.

<https://aagic.qig.cymru/newyddion/technegydd-fferyllfa-leol-yn-ennill-gwobr-prentis-cymru/>

### **Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru**

Rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2022, gweithiodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i drefnu bod **gwelyau dros ben o Ysbytai Maes COVID yn cael eu dosbarthu** i gartrefi gofal cymdeithasol a Gwasanaethau

Siopau Offer ar y Cyd ledled Cymru. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cafodd tua 1,600 o welyau eu dyrannu i wahanol rannau o Gymru, ac mae'r rhaglen yn parhau i mewn i'r chwarter nesaf.

Yng ngoleuni'r **prinder cenedlaethol o Penicillin V ar gyfer trin heintiau Strep A**, defnyddiodd Uned Feddyginiaethau CIVAS@IP5, sef gwasanaeth paratoi meddyginiaethau, ei phortffolio cenedlaethol a'i thrwydded Deliwr Cyfanwerthu'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) i gaffael niferoedd sylweddol o hylif Penicillin V (11,000 o boteli i gyd) yn uniongyrchol gan y gweithgynhyrchwr. Derbyniwyd a phroseswyd y stoc hon i'w dosbarthu i safleoedd gofal sylfaenol ac eilaidd ar draws yr holl fyrddau iechyd ar y cyd â'r Gwasanaeth Negesydd Iechyd o fewn 48 awr i sicrhau bod gan fyrddau iechyd stoc ddigonol. Wedi hynny, derbyniodd y gwasanaeth gyflenwad o 8,000 potel arall o Clarithromycin a dosbarthwyd y rhain i fyrddau iechyd a safleoedd gofal sylfaenol yn yr wythnos cyn y Nadolig, gan gynyddu'r cyflenwad ymhellach.

### **Cydweithrediaeth Iechyd Cymru Gyfan**

Cysylltodd **Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru** â thîm cyfathrebu Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru ychydig cyn y Nadolig er mwyn helpu i gynhyrchu adnodd i gefnogi teuluoedd sy'n cael trafferth gyda chostau byw. Wedi casglu cyfoeth o gysylltiadau defnyddiol, roedd y Rhwydwaith eisiau sicrhau bod yr wybodaeth yn hawdd ei chyrraedd a'i rhannu.

Mae'r tîm cyfathrebu wedi datblygu tudalen we a phoster y gellir ei lawrlwytho yn [Gymraeg](#) a [Saesneg](#), sydd wedi cael ei rannu ag unedau mamolaeth a newyddenedigol ledled Cymru.

Roedd Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru yn falch iawn o glywed bod Veronica Snow, cyn-arweinydd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Diwedd Oes, a ymddeolodd ym mis Medi, wedi derbyn MBE yn Anrhyddedau'r Flwyddyn Newydd i gydnabod ei gwasanaethau i **Ofal Lliniarol yng Nghymru**.

Gobeithio y cewch fudd o'r diweddariad hwn.

Yn gywir



**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services